



---

# CFfi CYMRU WALES YFC

---

Cynllun Iaith Gymraeg

2020-2023

---





## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	3
2. Delwedd Gyhoeddus .....	9
3. Hysbysebu a Deunydd Hyrwyddo.....	10
4. Gweithgareddau'r Mudiad .....	12
5. Cyfathrebu .....	14
6. Staff a'r Gweithle .....	16
7. Gweithredu a Monitro .....	18
Atodiad 1 - Amserlen a Thargedau .....	22

# CYNLLUN IAITH GYMRAEG MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU



## 1. Cyflwyniad

### 1.1 Y Mudiad

Mudiad Ieuenctid gwirfoddol yw CFFI Cymru. Mae ganddi 6,000 o aelodau rhwng 10 a 26 mlwydd oed mewn 157 o glybiau ledled y wlad. Mae'n Fudiad democrataidd, a'r broses ddemocrataidd yma sy'n sail i weinyddiad a gweithgaredd y Mudiad.

Mae'r 157 o glybiau wedi'u ffurfio i mewn i 12 ffederasiwn sirol, a phob ffederasiwn sirol yn rhan o Ffederasiwn Cymru - sydd yn un ardal o fewn 7 ardal Ffederasiwn Cymru a Lloegr. Mae'r ffederasiynau sirol yn rheoli eu hunain yn weinyddol o fewn y strwythur cenedlaethol. Mae Cyngor CFFI Cymru yn gyfrifol am ddarparu gweithgareddau, datblygu a gweithredu polisïau, yn cynghori clybiau a siroedd yng Nghymru ac yn gweithredu fel un o'r pwyntiau cyswllt rhwng Cyngor Cymru a Lloegr a'r Clybiau a Siroedd yng Nghymru.

Mae 62% o'n aelodau yn gweld eu hunain fel siaradwyr Cymraeg iaith Gyntaf. Mae'r ffaith hyn yn atgyfnerthu'r angenrheidrwydd i'r Mudiad ddarparu gwasanaeth yn gyfartal yn y ddwy iaith i'r aelodau.



## 1.2 Y Cynllun

Mae'r cynllun hwn yn nodi datganiad o nod ar gyfer y Mudiad ar lefel Cymru gyda chanllawiau ar sut mae'r Mudiad yn darparu gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru a nodi bwriad ac amserlen ar gyfer datblygiadau i'r dyfodol.

Hefyd, fe gynhwysir canllawiau, i'w trafod gan siroedd ar sut i weithredu polisi rhesymol ymarferol yn eu hardaloedd hwy, gan wneud y defnydd gorau o'r ymarfer da sy'n bodoli yn barod. Byddwn yn cynnig cyngor ac arweiniad i bob ffederasiwn, gyda'r nod o sefydlu partneriaethau lleol gyda chyrff neu swyddogion priodol megis y Mentrau Iaith, Swyddogion Cynlluniau Gweithredu Iaith Comisiynnydd y Gymraeg ac Estyn Llaw.

Byddwn yn ystyried y Ffederasiynau ar dri gwahanol lefel o ddarpariaeth.

- 1) Y rhai hynny sydd yn gweithredu trwy'r Gymraeg;
- 2) Y rhai sydd yn gweithredu yn ddwyieithog;
- 3) A'r rhai sy'n gweithredu yn bennaf trwy'r Saesneg.

Bydd Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn gweithio'n agos gyda phob Ffederasiwn er mwyn creu cynllun gwaith i ddatblygu'r Gymraeg o fewn pob Ffederasiwn yn unigol. Drwy gydweithio gyda'r Swyddgo bydd modd i'r partneriaethau yma baratoi amserlen a thargedau er mwyn amlinellu'r hyn maent am weithio tuag ato yn flynyddol.



Yr hyn bydd angen nodi ym mholisiau'r ffederasiynau yw esboniad o beth fydd ar gael, sut bydd hyn yn digwydd ac erbyn pryd. Bydd y ddogfen yma yn nodi beth mae CFFI yn ei ystyried yn ymarferol bosib i'w wneud i sicrhau fod pob ffederasiwn sirol yn medru darparu gwasanaeth dwyieithog yn ôl y galw.

Yng nghyfansoddiad CFFI Cymru, fe nodir fel un o'r amcanion:-

'I hybu ei weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac i sicrhau fod y gweithgareddau hynny yn gwella dealltwriaeth a gwybodaeth yr aelodau o fywyd Cefn Gwlad Cymru, diwylliant Cymru a'r Iaith Gymraeg'

Mae'n ysgrifenedig felly fod gan y Mudiad fwriad i ddarparu gwasanaeth yn y ddwy iaith i'n haelodau yng Nghymru.

Bwriad y ddogfen yma yw lledaenu ar yr hyn sydd yn y cyfansoddiad ac i ddangos sut mae hyn yn cael ei weithredu ar lefel Cenedlaethol yng Nghymru.



## 1.3 Cynllun Iaith CFFI Cymru

### 1.3.1 Datganiad o Nod:

Mae Cyngor CFFI Cymru yn ymrwymo i sicrhau y caiff ei aelodau, gwirfoddolwyr a staff yr un hawl i dderbyn eu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg fel yn y Saesneg yng Nghymru.

Mae CFFI Cymru wedi ymrwymo i hyn oherwydd eu bod yn darparu gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg, a'i fod yn cydnabod fod iaith gyntaf yn bwysig i bawb, boed yr iaith gyntaf hwnnw yn Gymraeg neu'n Saesneg, oherwydd:

- bod iaith yn gyfrwng mynegiant
- bod iaith yn fathodyn hunaniaeth
- bod iaith yn offeryn grym
- bod yr iaith Gymraeg yn rhan o'n treftadaeth yng Nghymru, a'i fod yn rhan bwysig o'n gwaith fel Mudiad i sicrhau ei dyfodol.

### 1.3.2 Y Canllawiau:

Mae'r adran yma yn nodi sut mae CFFI Cymru (Cyngor a Swyddfa Cymru) yn gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu cynllun i sicrhau fod y datganiad o nod a osodwyd yn cael ei weithredu'n ymarferol.



Gosodir y canllawiau o fewn 5 categori:

1. Cyflwyniad
2. Delwedd gyhoeddus
3. Hysbysebu a Deunydd Hyrwyddo
4. Gweithgareddau'r Mudiad ar lefel Cymru
5. Cyfathrebu
6. Staff a'r Gweithle
7. Gweithredu a Monitro

#### 1.4 Cyhoeddi

Bydd Cynllun Iaith Gymraeg CFFI Cymru'n ddogfen a fydd ar gael i bob aelod o'r cyhoedd. Caiff crynodeb o'r cynllun ei arddangos ar y wefan, lle croesewir argymhellion ar gyfer gwella'r Cynllun.

#### 1.5 Ymwybyddiaeth

**1.2.1** Bydd y polisi hwn ar gael yn gyfleus i'r cyhoedd ei ddarllen

**1.2.2** Bydd pob aelod o staff yn derbyn copi o'r polisi hwn ac arweiniad ar ei oblygiadau

**1.2.3** Yn ogystal a hyn, bydd copi ymhob swyddfa'r Ffederasiynau Sirol gyda'r dewis iddynt hwy os ydynt am roi copi i'r holl glybiau



## 1.7 Adborth

Bydd ein Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn ymdrin â chwynion ynghylch methiant i gyflawni gofynion y Cynllun.

### **Manylion cyswllt:**

Ffion Pennant


CFFI Cymru

Llanelwedd

Llanfair Ym Muallt

Powys

LD2 3NJ

 01982 553502

 [ffion.pennant@yfc-wales.org.uk](mailto:ffion.pennant@yfc-wales.org.uk)

**Dyddiad y Polisi Hwn:**

**05/08/2019**





## 2. Delwedd gyhoeddus

Bydd CFFI Cymru yn sicrhau fod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn yr un modd gyda'r un parch ac ar sail cyfartaledd. Eisoes, mae CFFI Cymru wedi ymrwymo i sicrhau hyn. Fe gynhyrchir pob taflen ac arwydd ac unrhyw ddeunydd cyhoeddus arall yn ddwyieithog.

### 2.1 Arwyddion

**2.1.1 Arwyddion Parhaol:** Bydd y Mudiad yn ymrwymo i ddarparu arwyddion dwyieithog yn yr adeilad yn Llanelwedd - arwyddion megis, Dim Ysmygu / No Smoking; Tynnwch / Pull ar y drysau ac yn y blaen

**2.1.2 Arwyddion dros dro:** Mae'r mwyafrif o'n harwyddion dros dro yn ddwyieithog

### 2.2 Enw Corfforaethol

**2.1.1** Enw'r Mudiad yw Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru / Wales Young Farmers' Clubs

**2.1.2** Defnyddir CFFI / YFC bob amser fel rhan o logo'r Mudiad

### 2.3 Papur Pennawd

Bydd pob papur pennawd, slip cyfarchion a cherdyn busnes yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg uwch ben neu i'r chwith o'r Saesneg.

### 2.4 Cardiau Busnes

Mae pob cerdyn busnes yn gwbl ddwyieithog.

### 2.5 Gwefan

Mae ein gwefan yn hollol ddwyieithog.

### 2.6 Cyfryngau Cymdeithasol

Mae ein gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol oll yn gwbl ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys Facebook, Twitter, Snapchat ac Instagram.



### 3. Hysbysebu a Deunydd Hyrwyddo

#### 3.1 Hysbysebu Gweithgareddau

Bydd holl wasanaethau'r Mudiad a hysbysir ar draws Cymru gyfan yn cael eu hysbysebu yn ddwyieithog - mewn papurau ac ar bosteri, gyda'r Gymraeg yn gyntaf neu i'r chwith o'r Saesneg. Byddwn yn darparu cyngor i staff.

#### 3.2 Hysbysebu Cyffredinnol

**3.2.1** Bydd siaradwyr Cymraeg hyderus ar gael i siarad ag aelodau o'r cyfryngau yn y Gymraeg a siaradwyr Saesneg hyderus ar gael i ddelio â'r cyfryngau yn Saesneg.

**3.2.2** Wrth ddelio â'r cyfryngau, danfonir i'r wasg yn y ddwy iaith - copïau Cymraeg i'r newyddiadurwyr Cymraeg a Saesneg i'r rhai di-Gymraeg. Felyl mae posib i phob Wasg i ddewis yr iaith a ddefnyddir ganddynt.

#### 3.3 Hysbysebu Recriwtio

Bydd pob hysbyseb swydd yn ymddangos yn ddwyieithog

#### 3.4 Hysbysebu Awyr Agored (Byrddau Arddangos)

Mae pob hysbyseb awyr agored yn gwbl ddwyieithog

#### 3.5 Cyhoeddiadau Print

**3.5.1** Bydd pob cyhoeddiad yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg ynghlwm yn rhan o'r un ddogfen, gan gynnwys adroddiad blynyddol ac adroddiadau ar gynlluniau'r Mudiad. Bydd maint, safon, eglurder ac amlygrwydd y geiriau yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb.

**3.5.2** Rydym yn cynhyrchu fersiynau Cymraeg o gyhoeddiadau print, ac yn sicrhau ein bod wastad yn dosbarthu a chynnig fersiynau yn y ddwy iaith gyda'i gilydd.



**3.5.3** Bydd cylchgronau a thafleuni newyddion i'r cyhoedd yn cael eu darparu yn ddwyieithog. Bydd y tafleuni un ai'n cael eu cynhyrchu'n gwbl ddwyieithog neu bydd cyfieithiad o grynoded o unrhyw erthygl yn ymddangos o dan yr erthygl, e.e. os bydd yr erthygl yn Saesneg, yna bydd crynodeb yn y Gymraeg. Os bydd yr erthygl wedi'i sgrifennu yn Gymraeg yna bydd crynodeb Saesneg o dan yr erthygl.

### **3.6 Deunydd Hyrwyddo**

Bydd y Mudiad yn cynhyrchu deunydd hyrwyddo er enghraifft sticeri, bathodynnau yn ddwyieithog neu weithiau pan fydd elfennau eraill yn rheoli, yn y ddwy iaith.



## 4. Gweithgareddau'r Mudiad

Mae Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru yn darparu ystod eang o weithgareddau yng Nghymru o gystadlaethau i gynlluniau Her y Gymuned a'r Amgylchedd a chynllun Menter, i hyfforddiant ar gyfer yr aelodau ar sawl agwedd.

Y nod cyson yw ceisio sicrhau cydraddoldeb mewn cyfleoedd i'n haelodau i gymryd rhan yn y gweithgareddau yn eu hiaith gyntaf - yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae'r adran yma yn delio â chystadlaethau a gweithgareddau a drefnir gan Gyngor Cymru a'r Is-bwyllgorau, ac a weinyddir gan Swyddfa Cymru. Bydd sylw yn cael ei roi i gystadlaethau a gweithgareddau ar lefel sir yn nes ymlaen yn y cynllun.

### 4.1 Rhaglen Gystadlaethau

**4.1.1** Gwneir yn sicr bod Cymry Cymraeg yn medru cystadlu yn y Gymraeg ym mhob cystadleuaeth berthnasol.

**4.1.2** Pan fydd cystadleuaeth yn fwriadol yn cael ei chynnal yn Saesneg (er enghraifft Drama Saesneg, neu Siarad Cyhoeddus Saesneg) yna'n amlwg Saesneg fydd iaith y gystadleuaeth. Bydd y Mudiad, fodd bynnag, yn defnyddio brawddeg safonol i esbonio hyn ar bosteri neu unrhyw ddeunydd sy'n hyrwyddo'r gystadleuaeth; 'Mae gan CFFI Cymru gynllun dwyieithrwydd ac oherwydd natur y gystadleuaeth yma, Saesneg fydd unig iaith y gystadleuaeth. Mae cystadleuaeth gyfatebol yn cael ei chynnal yn y Gymraeg'.



**4.1.3** Pan fydd cystadleuaeth yn fwriadol yn cael ei chynnal yn y Gymraeg (er enghraifft Drama Gymraeg neu Siarad Cyhoeddus Cymraeg), yna'r Gymraeg yn unig fudd iaith y gystadleuaeth. Bydd y Mudiad yn darparu brawddeg yn Saesneg i esbonio hyn ar ddeunydd cyhoeddusrwydd neu wybodaeth am y gystadleuaeth; 'Wales YFC has a bilingual scheme, and on this occasion, due to the nature of the competition, the sole language of the competition will be in Welsh. A corresponding English language competition is also held'.

**4.1.4** Ym mhob cystadleuaeth arall, nad sy'n fwriadol Saesneg na Chymraeg, bydd cyfle i gyfranogwyr gystadlu yn Gymraeg neu'n Saesneg.

**4.1.5** Pan gynhelir cystadleuaeth yn ddwyieithog, dylid arwain y gystadleuaeth yn ddwyieithog ar ddiwrnod y gystadleuaeth, h.y. defnyddio'r ddwy iaith i gyhoeddi eitemau a chanlyniadau

**4.1.6** Ble mae cystadleuaeth yn golygu cyswllt uniongyrchol rhwng cystadluewyr a beirniaid, bydd beirniaid yn cael eu dewis yn ôl gofynion ieithyddol y gystadleuaeth yn ogystal â'r arbenigedd perthnasol. Mewn panel o feirniaid, bydd yn angenrheidiol fod o leiaf traean o'r beirniaid yn medru cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac os yn bosib gweithredu fel cyfieithydd i'r panelwyr eraill.

## **4.2** Hysbysebion Cystadleuthau

Bydd hysbysebion, rheolau ac unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud â chystadlaethau yn cael eu darparu yn ddwyieithog neu yn y ddwy iaith.

## **4.3** Cyfleoedd Teg

Bydd y Mudiad yn manteisio i'r eithaf bob tro ar gyfleoedd i roi lle priodol i'r Gymraeg a'r Saesneg yng ngweithgarwch cymdeithasol y Mudiad.



## 5. Cyfathrebu

Yn yr adran hon, byddwn yn trafod sut y bwriedir delio â phobl yn uniongyrchol – boed yn aelodau o'r Mudiad neu'n gyhoedd.

### 5.1 Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb

**5.1.1** Bydd pob gwasanaeth a ddarperir gan y Mudiad yn cael ei gynnig yn y ddwy iaith, a bydd modd i bob person, lle bo'n bosib derbyn y gwasanaeth hwnnw yn ei ddewis iaith. Yn arferol, bydd hyn bob tro yn bosib, ond ar brydiau anaml pan na fydd aelod o staff neu swyddog ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn y Gymraeg, esbonnir hyn gan gynnig amser arall pan fydd rhywun ar gael i ymdrin â'r mater.

**5.1.2** Rydym yn annog staff sy'n gallu siarad Cymraeg i wisgo bathodyn *Cymraeg* pan fyddant wrth eu gwaith.

### 5.2 Cyfathrebu dros y ffôn

Byddwn yn sicrhau bod y ffôn yn cael ei ateb gan bawb yn ddwyieithog e.e. 'CFFI Cymru - Wales YFC'. Mae pob aelod o staff yn gallu adnabod a derbyn galwad yn Gymraeg gyda chwarteisi.

### 5.3 Gohebiaeth (Papur ac Electronig)

**5.3.1** Bydd pob gohebiaeth (llythyrau, post electronig) yn cael ei ateb yn yr un iaith a'i derbynir. Rydym yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg .Os bydd yr eitem o ohebiaeth Gymraeg wedi ei gyfeirio at aelod di-Gymraeg o'r staff yna fe gyfieithir yr eitem gan y swyddog gweinyddol a gweithredol dwyieithog a danfon cyfieithiad Cymraeg o'r ateb yn ôl.

**5.3.2** Bydd cylchlythyrau i gyrrff neu bobl nad sydd yn aelodau o'r Mudiad yn cael eu danfon yn dewis iaith y corff neu berson lle'r ydym yn gwybod y dewis iaith, neu yn ddwyieithog lle nad yw'r dewis iaith yn amlwg.



## 5.4 Cyfarfodydd/Pwyllgorau ac Agenda a Chofnodion

**5.4.1** Bydd papurau'r pwyllgorau (agenda a chofnodion) yn cael eu danfon yn electroneg i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod yn ddwyieithog. Fe fydd copiau dwyieithog hefyd yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd.

**5.4.2** Mewn cyfarfodydd pwyllgor ar lefel Cymru, bydd offer cyfieithu ar y pryd ar gael i'w ddefnyddio yng Nghyfarfodydd Cyngor Cymru. Mewn cyfarfodydd is-bwyllgor, bydd y Cadeirydd yn gwahodd unrhyw gyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg a sicrhair bod rhywun cyfrifol yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r is bwyllgorau i gyfieithu'r pwyntiau a wneir yn Gymraeg.

**5.4.3** Byddwn yn cynnal cyfarfodydd preifat gydag aelod o'r Mudiad neu'r cyhoedd yn newis iaith y person hwnnw, lle bo hyn yn bosib. Os yw'r person am siarad Cymraeg ynglŷn â mater sydd yn cael ei drin gan aelod di-Gymraeg o'r staff, esbonnir yn gyntaf, nad yw'r aelod o staff perthnasol yn siarad Cymraeg, ond bod cyfle i gael cyfieithydd yn y cyfarfod os dymunir hynny.

**5.4.4** Fe drefnir sesiynau ymwybyddiaeth i aelodau a staff er mwyn sicrhau eu bod yn hapus â rôl y Gymraeg a'r Saesneg o fewn cyfarfodydd a gweithgareddau'r Mudiad. Bydd y sesiynau yn canolbwyntio ar pam fod iaith yn bwysig, beth yw iaith a beth yw oblygiadau'r cynllun yma. Y nod fydd i dawelu unrhyw amheuan a all fod gan unrhyw aelod, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg o rôl y ddwy iaith o fewn y Mudiad.



## 6. Staff a'r Gweithle

### 6.1 Gweinyddiaeth Fewnol

#### 6.1.1 Sgiliau Iaith wrth Recriwtio

**6.1.1.1** Rydym yn ystyried pa sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd newydd yn ein sefydliad.

**6.1.1.2** Bydd swydd ddisgrifiad pob swydd, gan gynnwys gwirfoddolwyr yn nodi os yw'r gallu i siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd.

#### 6.1.2 Cyfathrebu Mewnol

**6.1.2.1** Rydym yn cydnabod rhyddid pob aelod o staff a'n cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a disgwyliwn i staff barchu dewisiadau ieithyddol eu cydweithwyr a'r cwsmeriaid.

**6.1.2.2** Bydd y Mudiad yn annog aelodau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd os dymunant hynny. Bwriedir cynnal sesiynau ymwybyddiaeth fydd yn eu sgil yn pwysleisio fod defnyddio'r ddwy iaith yn dderbyniol ac yn ddymunol o fewn y Mudiad.

**6.1.2.3** Bydd y Mudiad yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio offer cyfieithu mewn cyfarfodydd eraill, megis y Bwrdd Rheoli.

#### 6.1.3 Cyhoeddiadau Mewnol

Bydd y Mudiad yn anelu i ddarparu'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â chyflogi staff yn ddwyieithog – gan gynnwys cytundebau, system gwerthuso staff a chynlluniau sy'n effeithio staff (e.e. iechyd a diogelwch).

#### 6.1.4 Hyfforddiant

Bydd canllawiau'r Cynllun yn cael eu hystyried wrth benodi anghenion hyfforddi a datblygu staff a gwirfoddolwyr.





### 6.1.5 Cyfieithu

**6.1.5.1** Bydd y Mudiad yn defnyddio'r dull mwyaf priodol i gyfieithu deunydd er mwyn sicrhau safon uchel bob amser yn y ddwy iaith. Golyga hyn y bydd rhan o'r gwaith cyfieithu yn cael ei wneud yn fewnol, a darnau maith neu gymhleth yn cael eu cyfieithu gan gyfieithwyr proffesiynol.

**6.1.5.2** Rydym yn ymwybodol bod cyfieithu yn sgil ychwanegol, felly ni fydd gorfodaeth ar staff dwyieithog i gyfieithu, ond lle bydd unigolion yn fodlon byddwn yn eu cefnogi er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau dynol mewnol sydd ar gael.

### 6.1.5 Meddalwedd yn Gymraeg

Mae'r mudiad yn sicrhau bod Cysgliar ar gael ar bob cyfrifiadur yn y gweithle.

## 6.2 Ffederasiynau Sirol

### 6.2.1 Cefnogi Ffederasiynau

Bydd staff CFFI Cymru yn barod i gefnogi Ffederasiynau sirol i ddarparu gwasanaeth Cymraeg lle bo'r galw a lle nad yw staff na swyddogion yn y ffederasiwn yn medru cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y bydd swyddfa CFFI Cymru yn cynnig delio â gohebiaeth neu alwadau ffôn a ddaw i Ffederasiwn lle nad oes siaradwyr Cymraeg.

## 6.3 Gwasanaethau wedi eu darparu ar ein rhan

Pan gontractir darn o waith allan i gwmni neu fudiad arall, bydd y Mudiad yn sicrhau bod canllawiau'r cynllun yn cael eu dangos yn glir i'r contractwyr, gan fonitro'r gwasanaeth a roddir gan y contractwyr i sicrhau bod canllawiau'r cynllun yn cael eu dilyn.



## 7. Gweithredu ac Arwain

### 7.1 Cynllun Iaith y Mudiad

**7.1.1** Wrth gynllunio gweithgaredd neu brosiect newydd o fewn y Mudiad, bydd oblygiadau'r cynllun iaith yn cael eu hystyried cyn gweithredu'r prosiect neu weithgaredd newydd.

**7.1.2** Bydd y Mudiad yn defnyddio'i systemau gwerthuso presennol i gynnwys gwerthuso effaith y cynllun iaith. Byddwn yn gwerthuso yn ôl y targedau a osodir allan yn y ddogfen hon.

### 7.2 Cyllun Iaith a'r Ffederasiynnau Sirol

Rydym yn awyddus fod pob Sir yng Nghymru yn ymwybodol o'r Cynllun iaith ac yn ystyried elfennau o'r cynllun gyda'r nod o gyhoeddi cynllun eu hunain.

Bydd CFFI Cymru yn cefnogi siroedd yn y datblygiad hwn. Rhaid ystyried hefyd fod nifer o siroedd yn derbyn cymhorthdal gan Gyngorau Sir, a hwyrach daw gofynion oddi wrth y Cyngorau i sicrhau fod canllawiau eu cynlluniau nhw yn cael eu gweithredu gan fudiadau sy'n derbyn grant.

Byddai'r pwyntiau canlynol yn gymorth wrth drafod, a chyn datblygu, cynllun iaith sirol.

**7.2.1** Bod arolwg yn cael ei wneud o'r aelodau a phobl ifanc eraill yn yr ardal i greu darlun o angen o fewn yr ardal. Gall hyn gael ei wneud drwy awdit o fewn y clybiau, ac wrth edrych ar ffigurau poblogaeth.

**7.2.2** Paratoi awdit o sgiliau iaith gweithwyr (staff a gwirfoddolwyr).

*Mae'r adran nesaf yn nodi rhai o'r canllawiau i ystyried.*



**7.2.3** Mae'r adran nesaf yma yn nodi rhai o'r canllawiau i ystyried. Canllawiau o fewn y cynllun sirol. Mae'n bwysig fod y canllawiau yn rhai ymarferol ac yn ymwybodol o anghenion ieithyddol lleol. Y nod yw i bob Sir yng Nghymru ddarparu cynllun:

- Datganiad o nod ynglŷn â statws y ddwy iaith o fewn y Sir.
- A yw'n ymarferol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cystadlaethau a chyfarfodydd?
- Nodi ar swydd ddisgrifiad os yw'r iaith yn hanfodol neu beidio
- Delwedd gyhoeddus - a yw'r sir am ddatblygu papurau pennawd dwyieithog a theitl dwyieithog
- Cyhoeddiadau – a oes erthyglau neu eitemau Cymraeg i'w cynnwys yng nghyhoeddiadau'r Mudiad
- Cyswllt uniongyrchol i nodi sut byddai'r Mudiad yn delio â llythyrau neu alwadau ffôn Cymraeg

### 7.3 Arweiniad

Byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gefnogi ar y lefel uchaf o fewn ein sefydliad

### 7.4 Ymwybyddiaeth

**7.4.1** Bydd y polisi hwn ar gael yn gyfleus i'r cyhoedd ei ddarllen

**7.4.2** Bydd pob aelod o staff yn derbyn copi o'r polisi hwn ac arweiniad ar ei oblygiadau

### 7.5 Targedau a Chyfrifoldebau

**7.5.1** Mae nifer o elfennau o fewn y canllawiau eisoes yn cael eu gweithredu.

Bydd mwy nag un aelod o staff yn gyfrifol am weithredu elfennau gwahanol o'r cynllun.



**7.5.2** Mae gan y Prif Weithredwr y cyfrifoldeb o fonitro ac adrodd yn ôl ar berfformiad cyffredinol CFFI Cymru fel rhan o'r adolygiad blynyddol o fewn y drefn weithiau adrodd arferol. Caiff crynodeb o'r adroddiad ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y sefydliad.

**7.5.3** Bydd lefelau rhuglder yn perthyn i'r categorïau canlynol:

<b>RHUGL:</b>	gallu cyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg.
<b>CANOLRADDOL:</b>	gallu cyfathrebu ar lefel ganolraddol gydag ychydig o gefnogaeth neu ddim o gwbl.
<b>DEALLTWRIAETH SYLFAENOL:</b>	gallu cyflawni tasgau sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg gyda chymorth.

**7.5.4** Bydd CFFI Cymru yn ceisio anog dysgwyr i gymryd rhan lle bo'r modd er mwyn datblygu eu hyder yn defnyddio'r iaith Gymraeg. Ceisiau y mudiad ddatblygu ar ei ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr wrth fynd ymlaen.

**7.5.5** Mi fydd CFFI Cymru yn ceisio gwneud gymaint ac y gallent er mwyn bod Cymru yn cyrraedd targed y Llywodraeth o miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.

## 7.6 Adolygu

**7.6.1** Byddwn yn asesu ac yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol

**7.6.2** Bydd y Polisi Iaith Gymraeg hwn yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Byddwn yn paratoi adroddiadau monitro blynyddol ar ei weithrediad



**7.6.3** Mi fydd y Swyddog Dablygu'r Gymraeg yn gyfrifol am adrodd ar ddatblygiad yn erbyn amcanion a thargedau blynyddol y cytunwyd arnynt fel rhan o'r cylch adrodd yn ôl blynyddol.

Dylai amcanion ganolbwyntio ar argaeledd gwasanaethau yn Gymraeg;

- Y nifer o ddefnyddwyr oedd yn dymuno cyfathrebu'n Gymraeg ac amseroedd ymateb
- Y nifer a'r gyfran gyffredinol o unrhyw gyhoeddiadau / datganiadau i'r wasg ayb, na chafodd eu cynhyrchu'n ddwyieithog a'r rhesymau dros hynny
- Y gyfran o ymatebion i ohebiaeth Gymraeg o fewn y terfyn amser a gytunwyd
- Y nifer o ddigwyddiadau a.y.b. fel canran, lle na ddarparwyd gwasanaeth cyfieithu / dehongli, a pham hynny
- Y nifer o staff a gwirfoddolwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg ac ar ba lefel.

### Atodiad 1: Amserlen a Thargedau

<b>GWEITHDREFNAU MEWNOL</b>			
<b>CANLLAW</b>	<b>CYFLAWNWYD EISOES</b>	<b>OS NA, PRYD</b>	<b>GWEITHREDU</b>
Arwyddion	✓		<b>Holl staff</b>
Enw'r Mudiad / Logo	✓		<b>Cyngor</b>
Papur pennawd a.y.b.	✓		<b>Holl staff</b>
Cardiau Busnes	✓		<b>Holl staff</b>
Gwefan	✓		<b>Holl staff</b>
Cyfryngau Cymdeithasol	✓		<b>Holl staff</b>
Hysbysebion: Gweithgareddau / Cyffredinnol / Recriwtio / Awyr Agored	✓		<b>Cyngor a'r holl staff</b>
Cyfryngau	✓		<b>Holl staff</b>
Siarad â'r Cyfryngau	✓		<b>*Pan fo swyddog yn medru'r Gymraeg</b>
Cyhoeddiadau Print	✓		<b>Holl staff</b>
Deunydd Hyrwyddo	✓		<b>Holl Staff</b>
Cyfathrebu	✓		<b>Holl staff dwyieithog. Medru gyrru ymlaen at Swyddog sy'n rhygl yn y Gymraeg os oes angen.</b>

Gohebiaeth: Cylchgronau / taflenni / newyddion / Cyhoeddiadau	✓		<b>Holl staff</b>
Gweinyddiaeth Fewnol	✓		<b>Holl staff</b>
Cyfieithu	✓		<b>*Holl waith allanol yn ddwyieithog. Mwyafrif o'r gwaith mewnol yn ddwyieithog.</b>

<b>GWEITHGAREDDAU'R MUDIAD</b>			
<b>CANLLAW</b>	<b>CYFLAWNWYD EISIOES</b>	<b>OS NA, PRYD</b>	<b>GWEITHREDU</b>
Cystadlaethau	✓		Swyddog Gweithrediadau
Cystadlaethau Saesneg	✓		Swyddog Gweithrediadau
Cystadlaethau Cymraeg	✓		Swyddog Gweithrediadau
Cystadlaethau Dwyieithog	✓		Swyddog Gweithrediadau



## MUDIAD FFERMWYR IFANC CYMRU / WALES FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS

Canolfan CFFI Cymru / Wales YFC Centre

☎ 01982 553 502

Llanelwedd

📠 01982 552 979

Llanfair ym Muallt / Builth Wells

✉ [gwybodaeth@yfc-wales.org.uk](mailto:gwybodaeth@yfc-wales.org.uk) /

Powys LD2 3NJ

[information@yfc-wales.org.uk](mailto:information@yfc-wales.org.uk)

[www.cffi-cymru.org.uk](http://www.cffi-cymru.org.uk) / [www.yfc-wales.org.uk](http://www.yfc-wales.org.uk)



[www.cffi-cymru.org.uk](http://www.cffi-cymru.org.uk) / [www.yfc-wales.org.uk](http://www.yfc-wales.org.uk)